

## **Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion Olrhain Cysylltiadau yn ardal Cwm Taf Morgannwg.**

Yn yr hysbysiad preifatrwydd yma, rydyn ni wedi crynhoi rhai o'r prif ffyrdd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (bydd 'ni' yn cyfeirio at y rhain yn yr hysbysiad yma) yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion Olrhain Cysylltiadau yn ardal Cwm Taf Morgannwg.

Dylech chi ddarllen yr wybodaeth yma yn ogystal â [hysbysiad preifatrwydd Olrhain Cysylltiadau Cenedlaethol Cymru](#).

### **1. Beth yw Olrhain Cysylltiadau a sut mae'n gweithio?**

Byddwch chi'n effro i'r cynllun Profi Olrhain Diogelu yn sgil gwybodaeth gan y cyfryngau ac yn benodol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhan allweddol yn y frwydr barhaus yn erbyn COVID-19 (Coronafeirws) ac yn ceisio dod o hyd i ffordd i bobl yng Nghymru i fyw a gweithio ochr yn ochr â'r feirws a rheoli ei lledaeniad.

Mae olrhain cysylltiadau yn ddull hysbys o reoli lledaeniad clefyd heintus. Cyn gynted ag y byddwch chi'n dechrau profi symptomau, trefnwch brawf cyn gynted â phosibl, tra byddwch chi ac aelodau o'ch cartref yn hunanynysu.

Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio'n araf, bydd angen i ni i gyd gymryd camau i ddiogelu ein hunain, ein teuluoedd a'r gymuned. Mae olrhain cysylltiadau'n chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i ailafael mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Rhaid nodi, yn ystod y cyfnod heriol a heb ei debyg yma wrth ddelio â phandemig Coronafeirws, bod rhaid i bob Cyngor addasu'r ffordd y maen nhw'n gweithio yn gyflym iawn er mwyn parhau i ddarparu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch chi. Byddwn ni bob amser yn dilyn cyngor ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd unrhyw newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n darparu cymorth i chi o ran Profi, Olrhain, Diogelu yn cael eu diweddarau yn yr hysbysiad preifatrwydd yma.

### **2. Pwy sy'n darparu'r gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau?**

Er mwyn ymateb i bandemig COVID-19 mae Olrhain Cysylltiadau yn cael ei wneud ledled y DU, ac mae'n cael ei ddarparu gan nifer o asiantaethau a sefydliadau allweddol y llywodraeth.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, y 7 Bwrdd Iechyd Lleol, 22 Awdurdod Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Felindre (trwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru - NWIS) a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau.

Gan ddibynnu ar ble rydych chi'n byw a'r cyswllt sydd wedi'i nodi drwy'r Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau, mae modd i unrhyw un o'r sefydliadau uchod brosesu'ch data.

Mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn y mae pob sefydliad yn ei wneud mewn perthynas ag Olrhain Cysylltiadau yn ardal Cwm Taf Morgannwg.

## **Carfanau Orlhain Cysylltiadau Rhanbarthol**

Yn ardal Cwm Taf Morgannwg; mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau i'r bobl sy'n byw yn y siroedd yma.

Bydd y Garfan Orlhain Cysylltiadau ranbarthol yn cysylltu ag unigolion sydd wedi derbyn prawf positif i drafod eu symptomau a thrafod gyda phwy y buon nhw mewn cysylltiad (y cyfeirir atyn nhw fel 'cysylltiadau') a phryd.

Bydd y garfan hefyd yn cysylltu â'r cysylltiadau yn ddyddiol i weld a ydyn nhw'n profi unrhyw symptomau ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar hunanynysu.

Mae pob galwad gan y carfanau Orlhain Cysylltiadau yn cael eu cofnodi at ddibenion monitro / hyfforddi ac i gynorthwyo gyda datrys unrhyw gwynion sy'n codi.

Os nad yw galwad ffôn yn gyfleus, byddwch yn cael yr opsiwn i ddiweddarau eich manylion, eich symptomau a'ch cysylltiadau diweddar trwy ffurflen ar-lein. Bydd hyn yn arbed amser i chi gan ei fod fel arfer yn cymryd 20-30 munud o'i gymharu â galwad ffôn hirach. Os penderfynwch chi mai dyma'r opsiwn gorau i chi, byddwn ni'n anfon neges destun atoch chi gyda dolen i'r ffurflen ynghyd â chod 6 digid i chi ei nodi, ynghyd â'ch dyddiad geni i gael mynediad i'r ffurflen. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cwblhau'r ffurflen o fewn 24 awr, bydd y Garfan Orlhain Cysylltiadau yn eich ffonio chi eto.

## **GIG - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Bydd trigolion sydd wedi bod yn yr ysbyty am fwy na 3 diwrnod, yn cael eu nodi'n 'achos Covid a gafwyd yn yr ysbyty' a bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol yn ymgymryd â'r gwaith o Orlhain Cysylltiadau ar ran yr Awdurdod Lleol.

Bydd eich manylion chi'n cael eu trosglwyddo i Garfan Atal a Rheoli Heintiau (IP&C) yr ysbyty a fydd yn cysylltu â chi neu'n cwrdd â chi i ofyn cwestiynau er mwyn olrhain cysylltiadau.

Dyma hefyd fydd y broses i rywun sydd wedi cael ei ryddhau o'r ysbyty, ond sy'n profi'n positif am Covid yn fuan ar ôl ei ryddhau. Bydd y Garfan IP&C yn cysylltu â chi i drafod eich symptomau ac i drafod gyda phwy rydych chi wedi bod mewn cysylltiad.

## **GIG - Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru (NWIS)**

Mae NWIS yn darparu'r system ddigidol lle mae'r holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan y carfanau Orlhain Cysylltiadau Ranbarthol yn cael ei storio'n ddiogel.

## **Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICW)**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymorth arbenigol, cyngor ac arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol i GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â COVID.

Yn ogystal, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn darparu ac yn cydlynu gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau ar gyfer achosion sy'n deillio o sawl sir, er enghraifft lle mae unigolyn wedi teithio i ac o wahanol siroedd neu wledydd y tu mewn a'r tu allan i'r DU. Mae hyn yn cael ei esbonio ymhellach yn yr hysbysiad yma.

### **3. Pa fath o wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chadw ac am bwy**

Bydd y Garfan Orlhain Cysylltiadau yn cadw'r wybodaeth ganlydol am y bobl ganlydol:

#### **Unigolyn sydd wedi profi'n positif am COVID-19:**

- Enw llawn
- Cyfeiriad llawn a gwybodaeth gyswllt gan gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Dyddiad geni
- Rhyw
- Rhif GIG
- Manylion y prawf COVID-19 - dyddiad y prawf, dyddiad y canlyniad, y canlyniad (positif)
- Manylion am symptomau COVID-19
- Gwybodaeth ynghylch p'un a ydych chi mewn cartref gofal neu ysbyty.
- Gwybodaeth ynghylch a ydych chi ar y rhestr Gwarchod Cleifion a'r rheswm pam.
- Data am anabledd ac ethnigrwydd
- Manylion am eich cartref chi a'ch trefniadau byw.
- Gwybodaeth am y bobl rydych chi wedi bod mewn cysylltiad â nhw. Mae modd i hyn gynnwys y bobl sy'n byw gyda chi, eich teulu, ffrindiau a chydweithwyr ac ati.
- Gwybodaeth am y lleoedd rydych chi wedi ymweld â nhw.
- Os buoch chi mewn cysylltiad â chydweithwyr. Efallai y bydd angen gwybodaeth arnon ni hefyd am eich man gwaith a'ch cyflogaeth.
- Unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i olrhain cysylltiadau yr hoffech ei rhannu â ni.
- Cofnod o unrhyw gyngor a gwybodaeth rydyn ni wedi'u rhoi i chi.

#### **Unigolyn sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi profi'n positif am COVID-19:**

- Enw llawn
- Cyfeiriad llawn a gwybodaeth gyswllt gan gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Dyddiad geni
- Manylion am unrhyw symptomau COVID-19 y gallech chi fod yn eu profi.
- Data am anabledd ac ethnigrwydd.
- Cofnod o unrhyw gyngor a gwybodaeth rydyn ni wedi'u rhoi i chi.

- Unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i olrhain cysylltiadau yr hoffech ei rhannu â ni.

#### **4. O ble mae'r gwasanaeth yn cael fy ngwybodaeth, a chyda phwy mae'r gwasanaeth yn ei rhannu?**

##### **Unigolyn sydd wedi profi'n bositif am COVID-19:**

Os ydych chi wedi profi'n bositif am COVID-19, bydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Garfan Orlhain Cysylltiadau gan y GIG. Bydd y Garfan Orlhain Cysylltiadau hefyd yn casglu rhagor o wybodaeth yn uniongyrchol gennych chi pan fyddan nhw'n siarad â chi a phan fyddwch chi'n cytuno i ateb cwestiynau gan y Swyddog Orlhain Cysylltiadau.

##### **Unigolyn sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi profi'n bositif am COVID-19:**

Os daw hi i'r amlwg eich bod chi mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, bydd eich enw a'ch manylion cyswllt wedi cael eu darparu i ni gan yr unigolyn sydd wedi profi'n bositif (am resymau cyfrinachedd, fyddwn ni ddim yn gallu dweud wrthoch chi pwy oedd y person hwnnw). Lle nad oes gan yr unigolyn yma'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom ni i gysylltu â chi, megis eich cyfeiriad llawn, eich cartref a'ch rhif ffôn symudol ac ati, mae modd i ni ddefnyddio systemau a chofnodion eraill y Cyngor i gynorthwyo wrth i ni chwilio am y wybodaeth yma er mwyn cysylltu chi, er enghraifft eich cofnod Treth y Cyngor.

Gan ddibynnu ar bwy sydd wedi profi'n bositif, ble maen nhw'n byw a'r lleoedd / ardaloedd maen nhw wedi ymweld â nhw, mae'n bosibl y bydd eich gwybodaeth chi hefyd yn cael ei rhannu gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag olrhain cysylltiadau yng Nghymru a thu hwnt - megis carfanau Orlhain Cysylltiadau awdurdodau lleol eraill, lechyd Cyhoeddus Lloegr ac ati.

Bydd y Garfan Orlhain Cysylltiadau hefyd yn casglu rhagor o wybodaeth yn uniongyrchol gennych chi pan fyddan nhw'n siarad â chi a phan fyddwch chi'n cytuno i ateb cwestiynau gan yr Ymgynghorydd Orlhain Cysylltiadau.

##### **Lleoliadau gofal plant sy'n cael eu rheoli gan ysgolion a'r Cyngor**

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Garfanau Orlhain Cysylltiadau weithio'n agos gyda lleoliadau addysg fel meithrinfeydd ac Ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw blentyn sydd wedi profi'n bositif am COVID ac unrhyw blant, athrawon neu staff y buon nhw mewn cysylltiad â nhw, yn cael eu cadw gartref o'r ysgol / meithrinfa am y cyfnod gofynnol.

Er mwyn sicrhau hyn, bydd y Garfan Orlhain Cysylltiadau yn rhannu canlyniad prawf COVID plentyn gyda'r Pennaeth perthnasol neu Reolwr Gofal Plant Dechrau'n Deg y Cyngor os yw'n mynychu meithrinfa sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor. Yn yr un modd, bydd y Pennaeth a'r Rheolwr Gofal Plant Dechrau'n Deg yn rhannu gwybodaeth y prawf

gyda'r Garfan Orlhain Cysylltiadau os ydyn nhw'n dod yn ymwybodol o blentyn sy'n bositif neu'n cael prawf.

Bydd gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r plentyn sydd wedi profi'n bositif hefyd yn cael ei rhannu, gan gynnwys gwybodaeth gyswllt rhieni (yn achos plentyn ifanc) er mwyn i'r Garfan Orlhain Cysylltiadau nodi cysylltiadau a chysylltu â nhw i rannu cyngor ar unrhyw gamau y mae angen iddyn nhw eu cymryd, megis hunanynysu.

### **Caniatâd i weithredu ar eich rhan:**

Os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn, mae modd i chi roi caniatâd i ni siarad â rhywun arall ar ein rhan chi os yw'n well gennych chi.

Os ydych chi o dan 16 oed byddwn ni'n siarad â'ch rhieni / gwarcheidwaid am eich symptomau.

### **Teithio yng Nghymru a gweddill y DU**

Os ydych chi wedi teithio y tu allan i ardal Cwm Taf Morgannwg, gan gynnwys ymweliadau yn ystod dydd, gwyliau byr ac ati i rannau eraill o Gymru neu'r DU, mae'n ofynnol i ni anfon eich manylion chi at yr Awdurdod Lleol neu'r Awdurdod Iechyd Cyhoeddus perthnasol ar gyfer yr ardal rydych chi wedi ymweld â hi os ydyn nhw'n gofyn amdano, neu os ydych chi wedi datgelu i ni eich bod wedi ymweld â lle penodol.

### **Teithio o dramor**

Os ydych chi wedi cyrraedd yn ôl i'r DU mewn awyren neu long teithwyr, efallai y bydd gofyn i chi hunanynysu, gan ddibynnu ar y wlad rydych chi wedi dychwelyd ohoni. Ar ôl dychwelyd adref, os byddwch chi'n mynd yn sâl neu'n cael eich nodi fel cyswllt ag achos wedi'i gadarnhau, bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu â ni gan yr Awdurdod Iechyd Cyhoeddus neu'r Awdurdod Lleol perthnasol ar gyfer olrhain cysylltiadau, ac i'r gwrthwyneb.

## **5. Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol?**

### **Unigolyn sydd wedi profi'n bositif am COVID-19:**

Os ydyn ni wedi cael gwybod eich bod chi wedi profi'n bositif, bydd Swyddog Orlhain Cysylltiadau yn cysylltu â chi i ddarparu cyngor a chymorth. Byddan nhw'n gofyn am eich symptomau ac yn ceisio sefydlu gyda phwy y buoch chi mewn cysylltiad.

Efallai y bydd angen i ni gyfeirio eich achos chi at adrannau eraill yn y Cyngor, er enghraifft Gwasanaethau Cymdeithasol os oes gennym ni unrhyw bryderon diogelu am eich lles chi neu eraill yn eich cartref. Mae gan swyddogion ddyletswydd gyfreithiol i wneud hyn ac os hoffech chi wybod mwy am pam a sut y byddwn ni'n gwneud hyn, darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles](#).

## **Unigolyn sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi profi'n bositif am COVID-19:**

Os ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif, bydd yr Ymgynghorydd Orlhain Cysylltiadau yn cysylltu â chi ac os cytunwch chi i ateb y cwestiynau, byddan nhw'n rhannu cyngor â chi ar beth i'w wneud nesaf, er enghraifft am ba hyd y mae angen i chi hunanynysu. Byddwch chi hefyd yn derbyn galwadau lles dyddiol, ac, os byddwch chi'n datblygu symptomau, byddwch chi'n cael eich cyngori i drefnu prawf ac yn cael gwybod sut i wneud hyn. Os na fyddwch chi'n cysylltu â'r garfan ac os nad ydych chi am ateb unrhyw gwestiynau, mae'n ofynnol i ni anfon llythyr atoch chi'n egluro pa gamau y mae'n rhaid i chi eu cymryd.

### **Dyletswydd i hunanynysu**

Eich cyfrifoldeb chi yw dilyn cyngor y Garfan Orlhain Cysylltiadau a sicrhau eich bod chi'n hunanynysu os byddwch chi'n cael eich gofyn i wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i bobl ddilyn cyngor y Garfan Orlhain Cysylltiadau. Os nad ydych chi'n hunanynysu, neu'n hunanynysu mewn cyfeiriad gwahanol i'r cyfeiriad y dylech chi fod, mae'r Heddlu'n gallu cymryd camau yn eich erbyn chi. Os bydd yr Heddlu yn gofyn, bydd y Garfan Orlhain Cysylltiadau yn cadarnhau a ydych chi i fod yn hunanynysu (y dyddiadau) ac yn rhannu eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth gyswllt iddyn nhw.

### **Ymchwil ac Adrodd**

Efallai y byddwn ni, y GIG, Iechyd y Cyhoedd a Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio dadansoddiad o'r wybodaeth uchod i lunio adroddiadau a fydd yn cynnwys;

- Deall COVID-19 a'r risgiau i iechyd y cyhoedd, tueddiadau yn COVID-19 a risgiau o'r fath, ac agweddau ynghylch rheoli ac atal lledaenu COVID-19 a risgiau o'r fath
- Nodi a deall gwybodaeth am gleifion neu ddarpar gleifion sydd â COVID-19 neu sydd mewn perygl ohono
- Cyflwyno gwasanaethau i gleifion, clinigwyr, y gwasanaethau iechyd i'n trigolion.
- Ymchwil a chynllunio mewn perthynas â COVID-19 (gan gynnwys cael eich gwahodd, o bosib, i fod yn rhan o dreialon clinigol)
- Monitro cynnydd a datblygiad COVID-19.

#### **6. Beth yw'r sail gyfreithiol o ran defnyddio'r wybodaeth yma?**

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol at ddibenion Orlhain Cysylltiadau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yw:

- Erthygl 6(e) – tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.

Ar gyfer data mwy sensitif megis gwybodaeth am iechyd (a elwir yn ddata categori arbennig) mae angen sail gyfreithiol ychwanegol, ac mae hynny'n cael ei sicrhau drwy:

- Erthygl 9(2)(i) - Rhaid bod angen prosesu am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd (megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel a diogelwch gofal iechyd a sicrhau digon o feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol)

Caiff hyn ei ategu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysiadau) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdod Lleol) (Cymru) 2010
- Deddf Coronafeirws 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth i Gleifion) 2002

Mae'r darnau yma o ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Cyngor gyflawni rhai dyletswyddau o ran amddiffyn y cyhoedd rhag afiechyd trosglwyddadwy sy'n cynnwys; ei atal, diogelu rhag yr afiechyd neu reoli'r risg i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio gwybodaeth sydd gennym ni eisoes amdanoch chi, i'ch nodi chi fel cyswllt ac i rannu'ch gwybodaeth ag asiantaethau eraill.

## **7. Ydy'r gwasanaeth yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad arall**

Fel y disgrifir trwy gydol yr hysbysiad preifatrwydd hwn, mae modd i'r Garfan Olrhain Cysylltiadau rannu eich gwybodaeth bersonol â sefydliadau ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â darparu Olrhain Cyswllt COVID-19. Bydd y gofyn i rannu'r wybodaeth yma'n dibynnu pwy sydd wedi profi'n bositif, y bobl y buon nhw mewn cysylltiad â nhw a'r lleoedd y maen nhw wedi ymweld â hwy.

Mae modd i sefydliadau ac asiantaethau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Awdurdodau Lleol
- Adrannau'r Cyngor
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Asiantaethau Iechyd y Cyhoedd
- Cwmnïau teithio, cwmnïau hedfan, porthladdoedd ac ati.

## **8. Am ba mor hir caiff fy ngwybodaeth ei chadw?**

Dim ond cyhyd ag y bo angen ac y byddwn ni'n cadw'ch data personol a byddwn ni ond yn ei gadw at y diben rydyn ni'n ei brosesu ar ei gyfer.

Ar gyfer unigolyn sydd wedi profi'n bositif am COVID-19 byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am 7 mlynedd.

Ar gyfer unigolyn sydd wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif, ond does ganddo ddim symptomau ei hun, byddwn ni'n cadw'ch cofnodion am 5 mlynedd.

## 9. Eich gwybodaeth, eich hawliau

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhoi hawliau pwysig i chi, gan gynnwys yr hawl i gael gweld yr wybodaeth bersonol mae'r gwasanaethau yn ei chadw amdanoch chi.

Cliciwch [yma](#) am ragor o wybodaeth am eich hawliau o ran gwybodaeth a sut i'w defnyddio nhw.

## 10. Cysylltu â ni

Os oes gyda chi unrhyw bryderon neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio at ddibenion Orlhain Cysylltiadau, cysylltwch â ni:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont ar Ogwr  
Swyddfeydd Dinesig,  
Stryd yr Angel,  
Pen-y-bont ar Ogwr,  
CF31 4WB.

**E-bost:** [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)